

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Fawrth y 1af o Fedi 2026 am 7.30yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Ann Sillars (Cadeirydd), Andrew Jones, Dyfed Davies, John Phillips, Derrick Harries, Ambrose Lewis, Awyn Jones, Linda Davies, Alyson Harries & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Eirian Howells
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Croesawodd Ann Sillars pawb i'r cyfarfod gan ddiolch iddynt am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Clerc, Liza Jones - Rhoscrugebolion
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 6ed o Orffennaf 2026 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Gadawodd y clerc y cyfarfod tra bod materion parthed Rhoscrugebolion yn cael eu trafod.
Wrth ddychwelyd i'r cyfarfod nodwyd hanes y tir er mwyn cael ei drosglwyddo i'r cyfreithiwr.
- Nid oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud ar y llwybr gyferbyn Velindre, byddai'r clerc yn dilyn i fyny ar hyn.
- Nodwyd nad oedd y gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud ar lwybr Clunfelyn yn gwrthgyferbyniol gyda ebost y Cyngor Sir yn dweud fod y gwaith wedi cael ei wneud. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir parthed hyn.
- Roedd anfoneb am £24,000 am waith a wnaed hyd yn hyn ar offer newydd i Parc Trelech wedi ei dderbyn a'i dalu.
- Roedd y clerc wedi archebu a derbyn system sain ar gyfer defnydd y plwyf. Dangoswyd y system i bawb. Argymhellwyd i'r system cael ei storio yng Nghanolfan Gymunedol Trelech. Byddai ar gael i fudiadau o fewn y plwyf i'w ddefnyddio drwy wneud cais i'r clerc fel fod lleoliad a defnydd y sytem yn cael ei fonitro. Cytunwyd i ad-dalu'r clerc £529 am y system sain, bag storio, meic, gwifren xlr a stand.

6. Gohebiaeth

- a. Cafodd yr anfonebau canlynol eu hawdurdodi i'w talu
 - a. Ffi diogelu data – ICO - £47.00 (i'w dalu drwy d/u)
 - b. Yswiriant Zurich – Cytundeb hirdymor 3 mlynedd - £370.09
 - c. Cyfreithwyr Redkite – Rhoscrugebolion - £1,440.00 (talwyd o'r £3000 talwyd mis diwethaf)
 - ch. Archwilwyr Cymru – Ffi Archwilio 2024/25 - £379.60
- b. Roedd pryder wedi ei godi gan breswlydd parthed diffyg cynnal a chadw ar cloddiau Rhospwllgyawenen. Derbyniwyd y cwyn ar 13/8 ac fe gyfarfododd y clerc a hwy ar y 14/8. Yn dilyn

trafodaeth roedd y clerc wedi ysgrifennu at y tirfeddianwyr/tenantiaid perthnasol ac wedi derbyn ymateb wrth dau. Byddai'n dilyn i fyny gyda'r gweddill.

c. Derbynwyd Cytundeb Cyflogaeth Newydd wrth Cymdeithas Cenedlaethol Cyngorau Lleol a oedd angen ei dderbyn. Derbyniwyd y cytundeb ac fe'i lofnodwyd gan y Cadeirydd ac y Clerc.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £1,406.71

Dosbarthwyd taenlen o cyllideb v gwariant hyd 30/7/26 ac fe'i drafodwyd.

8. Unrhyw Fater Arall

Diweddarodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis bawb ar archwiliad diweddar o heolydd yr ardal. Roedd yn siomedig nad oedd gwaith wedi ei wneud yn Felindre a Glaspant. Roedd yr heol i Alma/Pandy yn cael ei wneud yn fuan.

Roedd diffyg cyflenwad dŵr yn Trelech wedi bod yn bryder ers nifer o flynyddoedd ond roedd wedi bod hyd yn oed yn waeth eleni yn tywydd sych. Awgrymodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis drefnu Cyfarfod Cyhoeddus gyda Dŵr Cymru fel fod pryderon lleol yn cael codi. Byddai dyddiad yn cael ei drefnu.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.40yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr y 2ail o Dachwedd 2026 am 7.30yh.